

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**23/01/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus  
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

**Public Services (Bridgend)**

**Gwasanaethau Cyhoeddus (Pen-y-Bont ar Ogwr)**

**Q9 Peter Black:** What steps is the Minister taking to improve the performance of public service delivery in Bridgend?  
OAQ(3)0160(FPS)

**C9 Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella perfformiad darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr? OAQ(3)0160(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** We are setting up a local service board to bring together the main bodies in Bridgend to provide focus and leadership for key challenges to public services. Across Wales, we are taking other action to put the citizen at the centre, to promote efficiency, high performance and innovation.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Yr ydym yn sefydlu bwrdd gwasanaeth lleol i dynnu ynghyd y prif gyrff ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ffocws ac i dangos arweiniad o ran heriau allweddol i wasanaethau cyhoeddus. Ledled Cymru, yr ydym yn cymryd camau eraill i ganolbwyntio ar y dinesydd, hyrwyddo effeithlonrwydd, perfformiad lefel uchel ac arloesi.

**Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

**Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Q10 Chris Franks:** What representations has the Minister received from the Minister of Children, Education, Lifelong Learning and Skills regarding the budget allocation?  
OAQ(3)0175(FPS)

**C10 Chris Franks:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch y dyraniad yn y gyllideb?  
OAQ(3)0175(FPS)

**Andrew Davies:** I have had discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, Jane Hutt, at

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Jane

various stages throughout the budget allocation round.

### **Social Justice and Local Government**

**Q11 Chris Franks:** What representations has the Minister received from the Minister of Social Justice and Local Government regarding the budget allocation? OAQ(3)0176(FPS)

**Andrew Davies:** I have had a number of constructive discussions with the Minister for Social Justice and Local Government, Brian Gibbons, regarding the budget, which was agreed by the Assembly on 22 January.

### **Meeting Service Commitments**

**Q12 William Graham:** Will the Minister outline the discussions with Cabinet colleagues regarding their meeting service commitments within the 2008-09 budget? OAQ(3)0162(FPS)

**Andrew Davies:** I had a number of discussions with Cabinet colleagues regarding the budget agreed by the Assembly on 22 January. The Assembly Government is satisfied that the budget provides sufficient resources to deliver our 'One Wales' programme, which will mean real and noticeable improvements in outcomes for the people of Wales.

### **Budget Monitoring**

**Q13 Angela Burns:** Will the Minister make a statement on what new measures are to be introduced to ensure that the Welsh Assembly Government's budget is thoroughly monitored throughout each year? OAQ(3)0192(FPS)

**Andrew Davies:** We are currently developing a financial monitoring system that will build on established budget monitoring and management processes.

### **Settlement for Local Authorities**

**Q14 Nick Ramsay:** What representations did the Minister receive during the budget round regarding the funding settlement for local

Hutt, ar wahanol adegau yn ystod cylch dyrannu'r gyllideb.

### **Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

**C11 Chris Franks:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ynghylch y dyraniad yn y gyllideb? OAQ(3)0176(FPS)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi bod mewn nifer o drafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Brian Gibbons, ynghylch y gyllideb y cytunodd y Cynulliad arni ar 22 Ionawr.

### **Diwallu Ymrwymadau Gwasanaeth**

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau gyda chyd-Weinidogion yn y cabinet ynghylch diwallu ymrwymadau gwasanaeth o fewn cyllideb 2008-09? OAQ(3)0162(FPS)

**Andrew Davies:** Bûm mewn nifer o drafodaethau gyda'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch y gyllideb y cytunodd y Cynulliad arni ar 22 Ionawr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon bod y gyllideb yn darparu digon o adnoddau i weithredu rhaglen 'Cymru'n Un' a fydd yn golygu gwelliannau gwirioneddol ac amlwg i bobl Cymru.

### **Monitro'r Gyllideb**

**C13 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau newydd a gyflwynir i sicrhau bod cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei monitro'r drwyadl drwy gydol bob blwyddyn? OAQ(3)0192(FPS)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd, yr ydym wrthi'n datblygu system fonitro ariannol a fydd yn seiliedig ar brosesau monitro a rheoli cyllidebol sefydledig.

### **Setliad Awdurdodau Lleol**

**C14 Nick Ramsay:** Pa sylwadau a gafodd y Gweinidog yn ystod cylch y gyllideb ynghylch y setliad cyllido ar gyfer

authorities? OAQ(3)0206(FPS)

**Andrew Davies:** As part of the budget process, I received a variety of representations from a wide range of stakeholders regarding funding for local authorities. Details of the final local government settlement were published by the Minister for Social Justice and Local Government, Brian Gibbons, on 22 January.

### The Census

**Q15 Jenny Randerson:** What representations has the Minister made to the Office for National Statistics and other departments about which questions should be included in the census? OAQ(3)0164(FPS)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government is represented at all levels of ONS census governance—from project boards to working groups—and is working closely with the ONS to ensure that Welsh needs are met.

awdurdodau lleol? OAQ(3)0206(FPS)

**Andrew Davies:** Fel rhan o'r broses gyllidebol, cefais amrywiaeth o sylwadau oddi wrth rychwant eang o randdeiliaid ynghylch y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol. Cyhoeddwyd manylion y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Brian Gibbons, ar 22 Ionawr.

### Y Cyfrifiad

**C15 Jenny Randerson:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac adrannau eraill o ran pa gwestiynau y dylid eu cynnwys yn y cyfrifiad? OAQ(3)0164(FPS)

**Andrew Davies:** Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynrychioli ar bob lefel lywodraethu cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol—o fyrddau prosiect i weithgorau—ac mae'n cydweithio'n agos â'r swyddfa i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu diwallu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

### Financial Condition of Secondary Schools

**Q9 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on the financial condition of secondary schools in Wales? OAQ(3)0137(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** Revenue funding for pre-16 education is provided through the local government revenue settlement. Sixth-form provision is funded by grant to local authorities. Gross schools expenditure by local authorities, inclusive of expenditure financed by grants, was budgeted to increase by £121 million, or 5.8 per cent, to £2.21 billion in 2007-08.

### The Use of the Welsh Language

**Q10 Sandy Mewies:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote the use of the Welsh language through education

### Cyflwr Ariannol Ysgolion Uwchradd

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr ariannol ysgolion uwchradd yng Nghymru? OAQ(3)0137(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Darperir y cyllid refeniw ar gyfer addysg cyn 16 drwy setliad refeniw llywodraeth leol. Ariennir darpariaeth chweched dosbarth drwy grant sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol. Cyllidebwyd cynnydd o £121 miliwn, neu 5.8 y cant, i £2.21 biliwn yn 2007-08 yng ngwariant gros awdurdodau lleol ar ysgolion, gan gynnwys gwariant a gyllidir gan grantiau.

### Defnyddio'r Gymraeg

**C10 Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg drwy addysg i bobl o

to people of all ages? OAQ(3)0246(CEL)

bob oed? OAQ(3)0246(CEL)

**Jane Hutt:** We are developing a Welsh-medium education strategy and implementation programme, from nursery through to further and higher education, building on current initiatives and developing the existing six Welsh for adults centres, with consideration being given to establishing a Welsh for adults unit.

**Jane Hutt:** Yr ydym wrthi'n datblygu strategaeth addysg a rhaglen weithredu cyfrwng Cymraeg o oedran meithrin i addysg bellach ac uwch, gan adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes a datblygu'r chwe chanolfan Cymraeg i oedolion sydd gennym. Yr ydym yn ystyried sefydlu uned Cymraeg i oedolion.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)0251(CEL), yn ôl.  
Question 11, OAQ(3)0251(CEL), has been withdrawn.*

### Priorities for 2008

### Blaenoriaethau ar gyfer 2008

**Q12 Nick Bourne:** Will the Minister outline her priorities for 2008? OAQ(3)0236(CEL)

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer 2008? OAQ(3)0236(CEL)

**Jane Hutt:** 'One Wales' describes the Government's plans for education in Wales. We will ensure that learners of all ages have access to high-quality provision. Practitioners will be trained and supported to deliver a diverse curriculum and the skills, knowledge and research a modern Wales needs.

**Jane Hutt:** Mae 'Cymru'n Un' yn disgrifio cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth o ansawdd uchel ar gael i ddysgwyr o bob oedran. Caiff ymarferwyr eu hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu cwricwlwm amrywiol a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymchwil sydd eu hangen ar Gymru fodern.

### School Uniform Grants

### Grantiau Gwisg Ysgol

**Q13 Bethan Jenkins:** Will the Minister make a statement on school uniform grants? OAQ(3)0236(CEL)

**C13 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am grantiau gwisg ysgol? OAQ(3)0236(CEL)

**Jane Hutt:** The Welsh Assembly Government introduced an all-Wales school uniform grant scheme in 2005-06 to assist families on low income with the purchase of school uniforms. In 2007-08, the scheme provides £97.50 to pupils entering year 7 of maintained secondary school who are eligible for free school meals.

**Jane Hutt:** Yn 2005-06, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun grant gwisg ysgol ar gyfer Cymru gyfan i helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisgoedd ysgol. Yn 2007-08, mae'r cynllun yn darparu £97.50 ar gyfer disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ysgolion uwchradd a gynhelir, ac sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

### Affordable Childcare

### Gofal Plant Fforddiadwy

**Q14 Eleanor Burnham:** How much additional funding will be allocated over the next Assembly term for improving the provision of affordable childcare? OAQ(3)0205(CEL)

**C14 Eleanor Burnham:** Faint o gyllid ychwanegol a ddyrennir dros dymor nesaf y Cynulliad ar gyfer gwella darpariaeth gofal plant fforddiadwy? OAQ(3)0205(CEL)

**Jane Hutt:** Over the next three financial years, £3.4 million will be added to the local authority revenue settlement for duties under

**Jane Hutt:** Yn ystod y tair blynedd ariannol nesaf, caiff £3.4 miliwn ei ychwanegu at setliad refeniw awdurdodau lleol ar gyfer

the Childcare Act 2006, an additional £5 million for Flying Start will extend the offer of free high-quality childcare for two-year-olds in Flying Start areas, and an additional £4.2 million for community-focused schools will be used for out-of-school childcare.

### **Children and Youth Support Fund**

**Q15 Eleanor Burnham:** How much funding does the Welsh Assembly Government intend to allocate to the new children and youth support fund—Cymorth? OAQ(3)0203(CEL)

**Jane Hutt:** In the final budget, there is provision of £160 million over the next three years for Cymorth. This excludes funding for childcare and children's information services transferred to the local authority revenue settlement.

dyletswyddau sy'n dod o dan Ddeddf Gofal Plant 2006, bydd £5 miliwn ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg yn ehangu'r cynnig o ofal o ansawdd uchel am ddim i blant dwy flwydd oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg, a chaiff £4.2 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion bro ei ddefnyddio ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol.

### **Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc**

**C15 Eleanor Burnham:** Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei ddyrannu i'r gronfa gymorth newydd i blant a phobl ifanc—Cymorth? OAQ(3)0203(CEL)

**Jane Hutt:** Yn y gyllideb derfynol, mae darpariaeth o £160 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar gyfer Cymorth. Nid yw'n cynnwys y cyllid ar gyfer gofal plant a gwasanaethau gwybodaeth i blant a drosglwyddwyd i setliad refeniw awdurdodau lleol.